

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

5 Chwefror 2020

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker (heblaw am adroddiadau eitemau 11/20-13/20),
Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs
J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney,
Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer,
Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

[Ymunodd y Cynghorydd Mrs D Clements â'r cyfarfod yn ystod
cyhoeddiadau'r Cadeirydd (gweler Cofnod 6 isod)]

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 2.15pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M
Evans.

2. Gair o groeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Kelland Dickens, Rheolwr
Adnoddau Dynol yr Awdurdod, i'r cyfarfod.

3. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11^{eg} o Ragfyr 2019
i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar yr 11^{eg} o Ragfyr 2019.

5. Materion yn codi

(a) Apwyntiadau i'r Pwyllgor Safonau (Cofnod 17)

Dywedodd y Prif Weithredwr bod ymateb ardderchog wedi bod i'r
hysbyseb pan dderbyniwyd 15 o geisiadau. Lluniwyd rhestr fer o'r
ymgeiswyr, a byddai'r cyfweiliadau yn cael eu cynnal dros ddeuddydd.
Byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r
Awdurdod.

NOWYD.



6. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd ers y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod. Ymhlith y cyfarfodydd hyn oedd y canlynol:

- Cyfarfod â'r Dirprwy Gadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr ynglŷn â chynlluniau'r Awdurdod ar gyfer y dyfodol.
- Cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol.
- Y cyntaf o ddau gyfarfod Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau.

Yn y diwrnodau nesaf byddai hefyd yn mynychu derbyniad yn Highgrove House i ddathlu 30 mlynedd ers sefydlu Plantlife, a chyfarfod a'r Dirprwy Weinidog.

7. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiadau cyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2019.
- (ii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2019.
- (iii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2019.

8. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2020/21

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2020/21 a'r rhagamcanion ar gyfer 2021/22 i 2024/25, yr ardoll 2020/21 drafft ar Gyngor Sir Penfro, y Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21.

Cyllideb Refeniw 2019/209 a Chyllideb Refeniw Drafft 2020/21

O ran y cyllidebau ar gyfer 2020/21, roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, fel yr oedd yr Aelodau wedi'u trafod yn flaenorol mewn gweithdy ar baratoi cyllideb. Roedd sefyllfa gyfredol y gyllideb refeniw am 2019/20 yn unol â'r sefyllfa adennill costau a nodwyd yn y gyllideb a gymeradwywyd fis Chwefror 2019, a'r disgwyl bod balans y Gronfa Wrth Gefn yn parhau ar £108,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20.

Aeth y Prif Swyddog Ariannol â'r Aelodau drwy'r adroddiad, gan nodi bod yr Awdurdod ers 2010/11 wedi gweld gostyngiadau sylweddol. Er bod disgwyl na fyddai'r Grant Parc Cenedlaethol/Ardoll yn newid o lefel 2019/20, wrth ddefnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr, roedd cyfanswm y gostyngiad mewn termau real ers 2010/11 yn 31.5% neu rhyw £1.5m. Aeth yr adroddiad ymlaen i ddangos effaith grant llinell wastad ar gyllideb yr Awdurdod dros y 5 mlynedd nesaf, oedd yn dangos diffyg blynyddol yn 2020/21 o £176,000 ac yn codi i £513,000 erbyn 2024/25. Hefyd roedd yr Awdurdod wedi gwneud dadansoddiad sensitifwydd i'r hyn fyddai



cyllideb refeniw yr Awdurdod pe bai gostyngiad o 5% a 10% yn y cyllid yn cael ei wneud.

Aeth rhagddo i ddweud bod yr Awdurdod wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd drwy wneud arbedion sylweddol yn y costau gweithredu, a thrwy gynyddu incwm o ffynonellau eraill. Ar dudalen 30 nodwyd y dylai cyfanswm costau 2018/19 fod wedi darllen £6,236k a'r symudiad cyfatebol yn ystod y cyfnod 2010/11 i 2018/19 oedd £573k. Roedd y cynnydd yn yr incwm a grëwyd wedi'i nodi yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, ynghyd â chyllideb refeniw gryno a mwy manwl ar gyfer 2020/21.

Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21, oedd yn rhagamcanu gwariant o £1,072,820, y byddai rhywfaint ohono yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, y gronfa wrth gefn gyffredinol, derbyniadau cyfalaf a grantiau allanol eraill. Roedd nifer o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi'u creu yn dilyn derbyn Grantiau Llywodraeth Cymru yn 2018/19 ac yn 2019/20.

O ran y cronfeydd wrth gefn a balansau ariannol, rhagwelwyd y byddai'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn codi ar ddiwedd of 2019/20 i £1,008,000 ac yn parhau ar y lefel hon tan ddiwedd 2020/21. Yn ogystal, byddai'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf yn cael ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf pellach yn 2019/20 ac yn 2020/21 ac roedd disgwyl i'r gronfa felly ostwng i £126,000 erbyn diwedd 2020/21, ac roedd disgwyl hefyd i'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ostwng i £1,747,000 erbyn diwedd yr un cyfnod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, cadarnhaodd y Prif Swyddog Ariannol mai polisi'r Awdurdod oedd cadw'r Gronfa wrth gefn Gyffredinol yn uwch na £400,000. Roedd yr Aelodau braidd yn amheus am gadw symiau mawr o arian wrth gefn. Serch hynny roeddent yn cydnabod bod y swm hwn i'w briodoli yn bennaf i arian cyfalaf diwedd blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, ac roeddent yn cymeradwyo'r prosiectau blaengar oedd yn cael eu hariannu. Hefyd holwyd cwestiwn ynglŷn â'r cyflogau gwahaniaethol yn sgîl cyflwyno'r cyflog byw. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod yr Awdurdod wedi gweithredu'r codiadau cyflog a bod y broses o ail-strwythuro'r graddfeydd cyflog yn dal i fynd rhagddi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cyllideb Ddrafft 2020/21 yn amodol ar nodi nad oedd Grant y Parc Cenedlaethol/Ardoll wedi'i gadarnhau hyd yn hyn, a nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2021/22 i 2024/25.

Yr Ardoll ar Gyngor Sir Penfro

Atgoffodd y Prif Swyddog Ariannol yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, isadran 3, yn pennu'r modd y dylid cyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar Gyngor Sir Penfro (CSP). Roedd y datganiad canlynol yn



cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael ar ddeall bod CSP wedi derbyn swm o arian oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n cyfateb i'r ardoll a godwyd arnynt.

Ardoll ar Gyngor Sir Penfro



Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £984,677 oddi wrth Gyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

- y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y cyfrif Refeniw yw £5,669,796
 - gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw £Dim
 - y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei Gyfrif Refeniw £Dim
 - y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol £Dim
- | | | |
|---|------------|------------------------|
| | ----- | £5,669,796 |
| Is-gyfanswm | | £5,669,796 |
| YN LLAI O | | |
| • Adran 72, Grant (GPC) | £2,954,030 | |
| • Incwm a gredydir i'r Cyfrif Refeniw | £1,731,089 | |
| • symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod ar gael yn ystod y flwyddyn | - | £4,685,119 |
| | ----- | ----- |
| Yr ardoll sy'n ofynnol | | <u>£984,677</u> |

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau yn awdurdodi ardoll o £984,677 (neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru) ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2020/21.



Dangosyddion Cod Materion Ariannol a'r Strategaeth Fuddsoddi 2020/21
Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Materion Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) wrth bennu cyllidebau blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cyngor y Prif Swyddog Ariannol o ran pennu rhaglen buddsoddi cyfalaf sy'n fforddiadwy, yn ddarvoudus ac yn gynaliadwy, fel y nodwyd yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

Aeth yr adroddiad rhagddo i gyflwyno Strategaeth Fuddsoddi yr Awdurdod a'r Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol ac yn ategu'r system fenthyca darvoudus. Dywedodd y Prif Swyddog Ariannol bod Archwilio Mewnol yr Awdurdod wedi adolygu'r dogfennau hyn yn ddiweddar a'u diweddarau gan fod rhai adneuron banc wedi croesi blynyddoedd ariannol. Cadarnhaodd y swyddog mai'r unig fuddsoddiadau oedd adneuron banc, ac roedd un Aelod o'r farn, os oedd buddsoddiadau eraill gan yr Awdurdod, y dylai'r buddsoddiadau hynny fod mewn cwmnïau sydd â safonau moesegol ac amgylcheddol uchel, er yn cydnabod nad oedd cronfeydd pensiwn, yn arbennig, o angenrheidrwydd o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau yn **MABWYSIADU'R** Dangosyddion Materion Ariannol, fel y'u cyflwynwyd ac yn **CYMERADWYO'R** Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21.

9. Diweddariad i'r Safonau Ariannol 2020

Dywedwyd bod Safonau Ariannol yr Awdurdod yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd a bod y Safonau oedd wedi'u diweddarau ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd y diweddariad yn amlygu'r newidiadau yn strwythurau'r Awdurdod, o ran cyfrifoldebau swyddi a Phwyllgorau, polisïau'r Awdurdod a deddfwriaeth y llywodraeth. Felly gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i'r Safonau, yn amodol ar gywiro gwall argraffyddol ym mharagraff 118 lle roedd y gair Prif Weithredwr wedi'i nodi ddwywaith.

Gan ddiolch i'r swyddog am ddogfen glir, gofynnodd un Aelod am eglurder ynghylch rolau'r Prif Swyddog Ariannol a'r Rheolwr Cyllid, a gofynnodd a ddylid cyfeirio at y ddau deitl os oeddent yn ymglyfnewidiol. Dywedwyd wrthi bod y ddwy rôl yn yr Awdurdod hwn yn cael eu cyflawni gan yr un person. Awgrymwyd y dylid rhoi eglurhad ar y gair 'tirlyfr', fel cofrestr o ddaliadau tir. Nodwyd hefyd y gallai cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Ewropeaidd golli eu defnyddioldeb gan fod hon yn ddogfen bedair blynedd, a chytunodd y swyddog i gynnwys brawddeg yn y Safonau i gyfeirio at ddeddfwriaeth olynol.



PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Safonau Ariannol 2020 yn amodol ar y newidiadau a godwyd yn y cyfarfod.

10. Rheolau Sefydlog Contractio 2020

Dywedwyd bod Rheolau Sefydlog Contractio hefyd yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd. Roedd y diwygiadau a nodwyd yn y ddogfen oedd gerbron yr Aelodau yn amlygu'r newidiadau mewn teitlau swyddi a strwythurau adrodd yn yr Awdurdod. Byddai'r adolygiad hefyd yn caniatáu i'r Awdurdod gael mynediad at amrywiol fframweithiau caffael y sector cyhoeddus ddylai wella'n sylweddol effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyflawni rhai ymarferion caffael.

Nododd yr Aelodau eto bod y ddogfen yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Ewropeaidd allai golli eu defnyddioldeb, a chytunodd y swyddog i gynnwys brawddeg i gyfeirio at ddeddfwriaeth olynol. Hefyd roeddent yn cwestiynu a ddylid cynnwys geiriad yn Rheol Sefydlog 12 i'w gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu eu polisïau Amgylcheddol. Holodd Aelod arall a ddylid rhoi mwy o bwyslais ar reoli prosiectau a hapddigwyddiadau, er mwyn ceisio rhwystro'r costau terfynol rhag bod yn sylweddol uwch na'r prisiau tendro. Atebodd y swyddogion bod yr Awdurdod yn defnyddio Syrffewyr Meintiau i wirio costau, ond serch hynny roedd posibilrwydd bob amser y gallai'r annisgwyl ddigwydd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Rheolau Sefydlog Contractio 2020 yn amodol ar y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod.

11. Cymeradwyo Rheol Sefydlog Contract 13 o ran y Contract Cysylltiad Carthffos Dŵr Budr yng Nghastell Caeriw

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod, fis Ebrill 2019, fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu safle Castell Caeriw, wedi gwahodd tendrau am ddarparu'r cysylltiad â'r garthffos dŵr budr. Swm gwreiddiol y tendr oedd £33,054. Roedd y cyfrif terfynol wedi'i gytuno rhwng yr Awdurdod, y syrffewr meintiau oedd wedi bod yn trafod ar ran yr Awdurdod, a'r contractwr, Alun Griffiths (Contractwyr) Cyf, sef swm o £58,639.82.

Dywedwyd bod y gwaith a wnaed ar y prosiect yn waith o'r radd flaenaf, ac roedd y prosiect yn ei gyfanrwydd wedi bod yn anodd iawn i'w gyflawni ac yn sylweddol fwy costus na'r amcangyfrif gwreiddiol. Rhoddwyd crynodeb o'r rhesymau dros y costau ychwanegol yn yr adroddiad.

Roedd rheol sefydlog yr Awdurdod ar gontractau mawr yn nodi bod "yr awdurdod i gymeradwyo defnyddio Rheol Sefydlog 13 yn gorwedd gyda'r Prif Weithredwr (y Swyddog Parc Cenedlaethol) a'r Prif Swyddog Ariannol yn unig, a'r cyfiawnhad dros y penderfyniad yn cael ei gofnodi a'i gadw ar ffeil y prosiect". Hefyd "bod pob cymeradwyaeth o dan y Rheolau Sefydlog hyn (13) i'w hadrodd i'r cyfarfod nesaf o'r APC i'r Aelodau eu cadarnhau". Nodwyd mai Rheol Sefydlog 16 oedd y Rheol Sefydlog



berthnasol o dan Reoliadau Sefydlog Contractio 2020 a gymeradwywyd yn gynharach yn y cyfarfod (y cyfeirir ato yng Nghofnod 10).

Roedd rhai Aelodau'n pryderu mai arian cyhoeddus oedd hwn, ac nad oedd y contractwr naill ai wedi cyflwyno pris realistig am y gwaith neu heb ymchwilio i'r dasg yn ddigonol. Fodd bynnag, dywedodd Aelod arall ei bod yn debygol bod y tendr wedi gofyn am fil meintiau, hynny yw, pris am gloddio darn o ffos, ac ati, ac felly byddai prisiau unrhyw contractwr wedi bod yn uwch. Rhaid hefyd oedd cydnabod bod Caeriw yn safle anodd ac na ellid bob amser ragweld y problemau fyddai'n codi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo defnyddio Rheol Sefydlog 13 (Rheol Sefydlog 16 yn y Rheolau Sefydlog Contractio 2020) o ran y contract ar gyfer cysylltiad carthffos dŵr budr yng Nghastell Caeriw.

12. Cynllun Corfforaethol 2020/21

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol o dan y Mesur Llywodraeth Leol i'r Awdurdod gyhoeddi Rhan 1 o'i Gynllun Gwella cyn gynted ag y byddai'n ymarferol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Roedd deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun yn dangos sut y byddai'n cyflawni tuag at y nodau llesiant. Er mwyn lleihau'r angen am ddyblygu, bwriedir i'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft gyflawni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth drwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod y gellid hefyd eu hystyried yn amcanion gwella.

Fis Rhagfyr 2019 roedd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-24 wedi cael ei gymeradwyo. Er mwyn cynorthwyo i integreiddio cyflawni effeithiau'r Cynllun â chynllunio corfforaethol, roedd tri maes effaith blaenoriaeth allweddol wedi'u clustnodi, y byddai ffrydiau gwaith sy'n cyflawni yn erbyn amcanion llesiant yr Awdurdod hefyd yn cyfrannu atynt yn ystod 2020/21. Y tri hyn oedd Ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd; Ymateb i golli bioamrywiaeth, a Llwybr yr Arfordir yn 50: tirweddau i bawb.

Roedd y Cynllun drafft a gyflwynwyd i'r Aelodau wedi bod yn destun cyfarfodydd ymgysylltu â swyddogion ar draws yr Awdurdod, ac roedd y camau a glustnodwyd wedi'u trafod gyda'r uwch dîm rheoli. Hefyd gwahoddwyd sylwadau gan yr Aelodau. Rhagwelwyd y byddai fersiwn derfynol o'r Cynllun yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod fis Ebrill.

Cwestiynodd un Aelod a oedd rhai o'r targedau, megis yr un am geisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu ar amser, yn ddigon uchelgeisiol. Awgrymwyd hefyd y dylid cyfeirio at gynigion ar gyfer datblygu Strategaeth Adnoddau Dynol a Safon Iechyd corfforaethol, yn ogystal â chyflwyno Adolygiadau o Ddatblygiad Personol a phorthol



Aelodau, y ddau olaf i ategu Siarter Uwch Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ymhlith awgrymiadau eraill oedd sôn am oblygiadau Brexit a chynyddu'r camau i gefnogi'r Strategaeth Iaith Gymraeg. Cwestiynodd Aelod arall ai allbynnau neu weithgareddau mewn gwirionedd oedd yr effeithiau a glustnodwyd yn y Cynllun. Hefyd nodwyd bod y pennawd ar un o'r ffotograffau yn anghywir.

Eglurodd y swyddog bod croeso iddynt gyflwyno sylwadau ychwanegol, ond bod angen derbyn y rhain cyn canol mis Mawrth.

NODWYD.

13. Cynllun Cydraddoldeb 2020-24

Dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 baratoi a chyhoeddi ei amcanion cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd o'r dyddiad cyhoeddi cyntaf; cyhoeddi datganiad yn nodi'r camau y mae wedi'u cymryd (neu'n bwriadu eu cymryd) i fodloni'r amcanion a pha mor hir y disgwylir iddi gymryd i fodloni pob amcan; gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion ac i fonitro pa mor effeithiol yw ei ddulliau; a rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth berthnasol ar gydraddoldeb oedd gan yr Awdurdod wrth ystyried beth ddylai ei amcanion cydraddoldeb fod.

Roedd amcanion cyfredol yr Awdurdod wedi'u hadolygu ac roedd yr amcanion arfaethedig newydd yn dod o dan bedwar maes: Y Parc - tirwedd i bawb; Ein Gwasanaethau – yn hygyrch ac yn gynhwysol; Ein Gweithlu – yn amrywiol, yn gefnogol ac yn gynhwysol; a Llywodraethu ac Ymgysylltu - mwy o gyfranogiad. Hefyd roedd gan bob un o'r rhain nod tymor hwy yn ogystal.

Roedd yr adroddiad yn nodi sut y cafodd y Cynllun drafft ei ddatblygu, ac atgoffwyd yr Aelodau bod y ddogfen wedi'i chyflwyno gerbron cyfarfod fis Rhagfyr o'r Awdurdod i gael sylwadau arni. Hefyd cyhoeddwyd yr amcanion drafft ar gyfer ymgynghori yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr. Roedd yr adborth a dderbyniwyd wedi'i ymgorffori yn y ddogfen a gyflwynir yn awr i'w chymeradwyo.

Estynnodd yr Aelodau eu llongyfarchiadau am ddogfen gynhwysfawr sy'n gynyddol bwysig wrth gefnogi'r gymdeithas amrywiol sydd ohoni.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 a'r amcanion cydraddoldeb diwygiedig.



14. Cynllun Datblygu Lleol Adnau 2 a Dogfennau Ategol Cyngor Sir Penfro

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro yn cwmpasu ardal Sir Benfro y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Roedd y Cynllun yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd er mwyn darparu ar gyfer y twf newydd y byddai ei angen i gynnal y cymunedau a'r busnesau hyd at 2033 ac i warchod amgylchedd a thirweddau o ansawdd uchel Sir Benfro yn barhaus. Roedd yr adroddiad yn ceisio pwerau dirprwyedig i gyflwyno ymateb i'r dogfennau ymgynghori ar ran yr Awdurdod, a rhoddwyd dolen gyswllt i'r dogfennau hyn. Os oedd gan yr Aelodau unrhyw bwyntiau y dymument eu codi, gofynnwyd iddynt eu hanfon ar e-bost at Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc erbyn y 29^{ain} o Chwefror 2020.

Gofynnodd yr Aelodau am i ymateb yr Awdurdod gael ei ddsbarthu atynt er gwybodaeth cyn ei gyflwyno.

PENDERFYNWYD rhoi pwerau dirprwyedig i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc i gyflwyno ymateb yr Awdurdod, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ar Gynllun Datblygu Lleol Adnau 2 Cyngor Sir Penfro.

15. Fforwm Gwirfoddoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dywedwyd bod y manteision i iechyd a llesiant yn sgîl gwirfoddoli wedi'i gydnabod fwyfwy dros blynnyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd roedd gan yr Awdurdod 145 o wirfoddolwyr wedi'u cofrestru, oedd yn cyflawni amrywiaeth o dasgau o waith cadwraeth ymarferol i oruchwylio yn yr oriel yn Oriol y Parc. Fodd bynnag, er mwyn datblygu gwirfoddoli mewn modd cynaliadwy, roedd angen i'r Awdurdod adeiladu sylfeini cadarnach drwy roi polisïau a gweithdrefnau yn eu lle, cryfhau'r berthynas rhwng staff a gwirfoddolwyr, a chynyddu, gwella ac arallgyfeirio'r cynnig i ddarparu wirfoddolwyr.

Fel rhan o'r gwaith hwn, roedd Fforwm Gwirfoddolwyr wedi'i sefydlu fis Hydref 2019 i roi llais i'r gwirfoddolwyr, gwella'r cyfathrebu rhwng gwirfoddolwyr, staff a'r Aelodau; cyfrannu at gymorth effeithiol i'r gwirfoddolwyr a'i hyrwyddo, a datblygu'r cyfraniad a wneir ganddynt at reoli a hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol; a rhoi safbwynt y gwirfoddolwyr o ran ystod o faterion, polisïau a datblygiadau. Er mwyn i hyn weithio'n effeithiol, gofynnwyd am gynrychiolaeth Aelodau ar y Fforwm.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd M James i gynrychioli'r Awdurdod ar y Fforwm Gwirfoddoli.

16. Clwb Golf y Links Trefdraeth

Dyweddodd y Swyddog Monitro ei fod o'r farn bod dyletswydd arno o dan Adran 5(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i gyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ynglŷn â'r amgylchiadau sy'n ymwneud â gwerthu 10 o unedau llety yng Nghlwb Golf y Links, Trefdraeth, sy'n ymddangos



eu bod yn groes i'r rhwymedigaethau a gynhwysir mewn cytundeb Adran 106 dyddiedig 13 Mehefin 2013 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a wnaed rhwng yr Awdurdod hwn a'r perchennog.

Oherwydd bod gwall yn y Cytundeb Adran 106, roedd y tiffeddiannwr yn gallu cael gwared ar 10 eiddo heb orfod ail-fuddsoddi'r arian yn y cwrs/ clwb golff yn ôl cyfarwyddiadau'r Aelodau. Canlyniad hyn oedd bod y 10 eiddo wedi'u hadeiladu yng nghefn gwlad agored, yn groes i'r polisi, ac nad oedd penderfyniad y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i weithredu.

Roedd y sefyllfa a arweiniodd at baratoi'r adroddiad yn anghyffredin iawn gan nad oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw gamau amhriodol na chamgymeriad ar ran yr Awdurdod ei hun. Felly nid oedd unrhyw gamau y gellid eu cymryd na gweithdrefnau neu bolisiâu y gellid eu cyflwyno fyddai'n lleihau neu'n dileu'r risg bod yr un peth yn digwydd eto. Er bod amgylchiadau gweithredu'r ddogfen wedi golygu elw annisgwyl ar hap i'r perchennog, nid oedd yr Awdurdod na'r cyhoedd wedi dioddef unrhyw golled ariannol oherwydd hynny. Cymerwyd cyngor cwmsler ac roeddent wedi ystyried camau unioni mewn cyfraith gyhoeddus (adolygiad barnwrol, dirymu caniatâd cynllunio) ac mewn cyfraith breifat. Fodd bynnag, roeddent o'r farn nad oedd unrhyw fudd o ddilyn unrhyw un o'r opsiynau hynny.

Dywedwyd yn y cyfarfod bod llythyr wedi dod i law oddi wrth berchennog yr eiddo yn gofyn am nodi na dderbyniwyd unrhyw elw trethadwy ar ôl costau adeiladu a chostau eraill. Nid oedd ychwaith wedi bod yn ymwybodol o'r newid yn y geiriad oedd wedi ei alluogi i werthu'r unedau heb orfod ail-fuddsoddi'r arian.

Roedd yr Aelodau yn siomedig i glywed am yr hyn oedd wedi digwydd, ond diolchwyd i'r Swyddog Monitro am dynnu eu sylw at y mater mewn ysbryd o fod yn agored ac yn dryloyw. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'r niwed i enw da'r Awdurdod ac yn gobeithio y gellid dysgu gwersi. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau nad oedd eu penderfyniad wedi'i roi mewn grym ac yn gobeithio na welir achos tebyg arall.

NODWYD.

17. Digwyddiadau corfforaethol

Dywedwyd bod yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn derbyn gwahoddiad i fynychu amrywiol ddigwyddiadau corfforaethol. Roedd yr adroddiad yn nodi'r digwyddiadau hynny yr oedd yr Aelodau wedi cael gwahoddiad iddynt hyd yn hyn eleni a gofynnwyd i'r Aelodau awdurdodi presenoldeb yn y digwyddiadau hyn.



Yn y cyfarfod ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr Aelodau hefyd wedi'u gwahodd i gymryd rhan ym mhenwythnos breswyl Pwyllgor Ieuenctid yr Awdurdod yng Nghanolfan Pentre Ifan ar y 13^{eg} – 15^{fed} o Fawrth 2020.

Ni ofynnwyd am fynegi diddordeb yn unrhyw un o'r digwyddiadau ar hyn o bryd, ac y byddai manylion pellach yn cael eu dosbarthu maes o law.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r Aelodau i fynychu'r digwyddiadau fel a ganlyn:

- a) Cwrs Sefydlu Cenedlaethol i Aelodau a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri rhwng yr 8^{fed} a'r 10^{fed} o Fedi 2020 (*Aelodau newydd fel arfer neu'r rhai nad oeddent wedi cael cyfle i fynychu Cwrs Sefydlu*);
- b) Seminar Wanwyn y WLGA: 1^{af} Mai 2020 yn Stadiwm Liberty, Abertawe (*1 neu 2 Aelod*);
- c) Cynhadledd Flynyddol y WLGA: Tymor yr Hydref 2020 - y dyddiad i'w gadarnhau (*1 neu 2 Aelod*);
- d) Cynhadledd Europarc: 27^{ain} – 30^{ain} o Hydref yn Neusiedler See, Parc Cenedlaethol Seewinkel, Awstria (*hyd at 2 Aelod*);
- e) Seminar Blynyddol i Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhelir ar y 13^{eg} – 14^{eg} o Hydref 2020 gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (*pob Aelod*);
- f) Penwythnos Breswyl y Pwyllgor Ieuenctid yng Nghanolfan Pentre Ifan ar y 13^{eg} – 15^{fed} o Fawrth 2020.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd P Baker a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

18. Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro 2020-2025

Dywedwyd mai Rheoli Cyrchfannau oedd y broses o arwain, dylanwadu a chydlynu'r gwaith o reoli pob agwedd ar gyrchfannau sy'n cyfrannu at brofiad yr ymwelydd, gan ystyried anghenion ymwelwyr, y trigolion lleol, busnesau a'r amgylchedd. Yn Sir Benfro, Partneriaeth Cyrchfannau Sir Benfro oedd yn goruchwyllo'r gwaith o reoli cyrchfannau, sef partneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Sir Penfro (CSP), Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP), Twristiaeth Sir Benfro a Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro ar gyfer Datblygu Economaidd (PLANED). Yn 2019 roedd y bartneriaeth, gyda chyllid uniongyrchol gan CSP ac APCAP, wedi comisiynu Blue Sail i gynnal adolygiad o'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau presennol a chreu cynllun ar ei newydd wedd a mwy cyfoes



ar gyfer y sir, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, sy'n cefnogi twf parhaus yr economi ymwelwyr. Roedd copi o'r Cynllun ynghlwm wrth yr adroddiad, a gwahoddwyd yr Aelodau i fabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol fel y ddogfen allweddol i arwain gwasanaethau a gweithgareddau'r Awdurdod sy'n ymwneud ag ymwelwyr dros y pum mlynedd nesaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr yn y cyfarfod bod Croeso Cymru, ers paratoi ei adroddiad, wedi lansio eu strategaeth "Croeso i Gymru: blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-2025". Fodd bynnag, roedd 'Cynllun Sir Benfro' yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau allweddol a amlinellir yn y strategaeth, yn ogystal â'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro.

Roedd yr Aelodau yn gytûn, fel y nodir yn y Cynllun Rheoli, bod twristiaeth yn Sir Benfro yn golygu wynebu heriau a chyfleoedd, a'r gobaith oedd y byddai'r Cynllun yn cefnogi twf yn economi ymwelwyr y sir.

PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir Benfro 2020-2025 fel y ddogfen allweddol i arwain gwasanaethau a gweithgareddau yr Awdurdod sy'n ymwneud ag ymwelwyr dros y pum mlynedd nesaf.

19. Cais gan Gyngor Sir Penfro am Gyllid i gefnogi elfennau o Gyrchfannau Sir Benfro

Dywedwyd bod Aelodau a swyddogion o'r Awdurdod a Chyngor Sir Penfro (CSP) wedi cynnal dau gyfarfod yn ystod hydref 2019 i drafod sut i ariannu gwasanaethau yr ystyriwyd eu bod yn hanfodol i ddarparu cyrchfannau effeithiol i ymwelwyr. Ni fu cytundeb ar y ffordd ymlaen, fodd bynnag, er mwyn rhoi cyfle i Aelodau'r Awdurdod drafod y mater, gwahoddwyd CSP i gyflwyno cais am gymorth ariannol gan yr Awdurdod, ac atodwyd y cais i'r adroddiad.

Roedd y llythyr gan CSP yn gofyn am gymorth ar gyfer tri gweithgaredd: y Cwmni Rheoli Cyrchfannau newydd (roedd hyn wedi'i ystyried mewn adroddiad ar wahân i'r Awdurdod (*y cyfeirir ato yng Nghofnod 21*); toiledau cyhoeddus; a Rheoli'r Traethau ac Achubwyr Bywyd. Roedd y materion allweddol o ran y ddau weithgaredd olaf wedi eu nodi ar gyfer yr Aelodau yn adroddiad y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, roedd wedi terfynu drwy ddweud bod yr Awdurdod yn cydnabod bod y cwtogi ar arian cyhoeddus dros ddegawd a mwy wedi golygu ei bod yn heriol i gadw'r "pethau pwysig" oedd eu hangen ar gyfer cyrchfan lwyddiannus. Roedd llythyr CSP yn rhoi diffiniad cul iawn o'r hyn yw "pethau pwysig" megis meysydd parcio, toiledau a thraethau. Dadleuwyd bod y "pethau pwysig" yn llawer ehangach na hynny a bod yr Awdurdod eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol i economi ymwelwyr ehangach Sir Benfro mewn lluo o ffyrdd gan gynnwys rheoli'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus yr



amcangyfrifir sy'n costio £500k a mwy i'r Awdurdod y flwyddyn i'w rheoli a'u cynnal heb unrhyw gymorth ariannol gan CSP. Byddai cefnogi'r cais hwn gan CSP, felly, yn cael effaith sylweddol ar allu'r Awdurdod i barhau â rhywfaint o'r gwaith hanfodol hwn yn y dyfodol.

Er bod yr Aelodau yn cytuno bod darparu toiledau cyhoeddus yn Sir Benfro yn bwysig i'r trigolion lleol ac i'r ymwelwyr fel ei gilydd, yn ogystal ag i enw da Sir Benfro fel cyrchfan gwyliau, awgrymwyd petai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn dechrau rheoli toiledau unigol, y byddai'n symud i ffwrdd o ddibenion y Parc Cenedlaethol, heb sôn am yr effeithlonrwydd fyddai'n cael ei gollu pe bai rheolaeth yn cael ei rhannu rhwng nifer o sefydliadau. Hefyd mynegwyd pryder ynghylch y cais am arian pan na fyddai gan yr Awdurdod unrhyw reolaeth dros y modd y byddai'r arian hwnnw yn cael ei wario, a nodwyd bod yr Awdurdod newydd gymeradwyo ei gyllideb ac y byddai rhoi cyfraniad i CSP yn cyfateb i doriad o 6% yn y gyllideb.

Nodwyd hefyd bod y broblem o ddarparu toiledau cyhoeddus yn fater iechyd cyhoeddus nad yw'n gyfyngedig i sir Benfro a bod angen hefyd i'r mater gael ei ystyried ar lefel Cymru gyfan. Roedd Aelodau eraill yn pryderu am dôn y llythyr nad oedd yn cynrychioli dull o weithio mewn partneriaeth ac yn dangos diffyg sylweddoli beth yn union yw dibenion y Parc Cenedlaethol. Roedd angen mwy o gydweithredu rhwng yr holl sefydliadau a busnesau hynny sy'n ceisio hyrwyddo Sir Benfro. Y gobaith hefyd oedd bod y trafodaethau hynny sydd eisoes ar y gweill ynglŷn â'r toiledau cyhoeddus ar lefel gymunedol unigol, yn parhau.

Nid oedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod ymateb yn negyddol i CSP, ac awgrymwyd y dylai'r llythyr gwmpasu'r pwyntiau a ganlyn, a chynigiwyd ac eiliwyd hyn, ar yr amod bod y llythyr yn cael ei gytuno â Chadeirydd yr Awdurdod:

1. Siom yn nhôn y llythyr ac absenoldeb gweithio mewn partneriaeth a sylweddoli beth yw dibenion y Parc Cenedlaethol.
2. Nodi bod y cyrchfannau yn ehangach na'r meysydd a amlygwyd yn y llythyr, a bod yr Awdurdod eisoes wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi ymwelwyr ehangach yn Sir Benfro;
3. Nad oedd yr Aelodau am drosglwyddo adnoddau i CSP heb fod â rheolaeth dros yr adnoddau hynny, a chraffu ar y modd y defnyddir yr adnoddau;
4. Bod yr Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd darparu toiledau cyhoeddus, ond nad oedd yn cytuno i gymryd safleoedd unigol drosodd nac i gyfrannu cyllid tuag atynt;
5. Cytundeb i gynnal trafodaethau ar y posibilrwydd bod yr Awdurdod yn rheoli rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r traethau, yn amodol ar glustnodi costau, gan fod hwn yn faes gwaith oedd yn fwy cydnaws



â dibenion y Parc Cenedlaethol. Roedd i hyn y potensial i CSP allu rhyddhau cyllid ar gyfer rheoli toiledau cyhoeddus.

Mynegwyd y farn y dylai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol chwarae ei ran wrth gynnal a chadw toiledau cyhoeddus, yn enwedig gan y gofynnir i Gyngorau Tref a Chymuned wneud hynny. Cynigiwyd gwelliant oedd yn ychwanegu y dylai trafodaethau gyda CSP yn benodol am doiledau cyhoeddus barhau, heb i'r Awdurdod ymrwymo ei hun, ond ni chafodd y cynnig hwn ei eillio.

PENDERFYNWYD bod y Prif Weithredwr, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd, yn ysgrifennu at Gyngor Sir Penfro yn cynnwys y pwyntiau 1-5 fel y nodir uchod.

20. Eithrio'r cyhoedd

PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 13 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

21. Sefydliad Rheoli Cyrchfannau – Twristiaeth

Dywedwyd mai Partneriaeth Cyrchfannau Sir Benfro sydd ar hyn o bryd yn goruchwyllo rheoli cyrchfannau yn Sir Benfro, partneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Sir Penfro (CSP), APC Arfordir Penfro a Thwristiaeth Sir Benfro a Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro ar gyfer Datblygu Economaidd (PLANED).

Yn 2015, roedd yr Awdurdod wedi ystyried adroddiad oedd yn argymhell sefydlu Sefydliad ffurfiol newydd i Reoli Cyrchfannau yn Sir Benfro. Fodd bynnag, er gwaethaf ymrwymiad partneriaid allweddol i gefnogi dulliau newydd o reoli a marchnata cyrchfannau yn Sir Benfro, ni symudwyd ymlaen i roi argymhellion adroddiad 2015 ar waith.

Yn 2018 dechreuodd y Bartneriaeth unwaith eto i adolygu ei ddulliau at y dyfodol a chytuno:

- 1) i ddatblygu Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd a chynhwysfawr ar gyfer Sir Benfro fyddai'n cael ei gefnogi gan randdeiliaid lleol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector (roedd hyn wedi bod yn destun adroddiad ar wahân a ystyriwyd gan yr Awdurdod – y cyfeirir ato yng Nghofnod 18); ac i
- 2) gynhyrchu astudiaeth ddichonoldeb a chynllun gweithredu ar gyfer Sefydliad newydd i Reoli Cyrchfannau yn Sir Benfro oedd yn ystyried ffynonellau incwm ychwanegol a chynaliadwy i gefnogi'r Sefydliad newydd mewn cyfnod o ddirywiad yng nghyllid y sector cyhoeddus.

Ystyriwyd bod y cynllun busnes newydd yn goresgyn y materion oedd yn amlwg yn 2014/15, ac atodwyd copi o'r cynllun busnes i'r adroddiad. Roedd y cynllun busnes yn nodi'n fanwl y cynllun arfaethedig ar gyfer



darparu gwasanaethau i ymwelwyr yn y dyfodol yn y sir a'r effaith ar asiantaethau partner allweddol. O ran yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, roedd yr adroddiad yn cynnig cyfraniadau mewn-da ac mewn arian parod.

Er bod gan rai Aelodau bryderon ynghylch y manylion a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â chreu'r Sefydliad newydd, dywedodd y swyddogion bod yr adroddiad oedd ger eu bron yn ceisio eu cytundeb mewn egwyddor. O dan y cynigion, byddai Bwrdd Cysgodol yn cael ei greu yn gyntaf, ac wedyn Bwrdd Gweithredol y Sefydliad fyddai'n gyfrifol am redeg y Sefydliad, gyda'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli ar y ddau hyn. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr ymlaen i ddweud pe cytunwyd ar hyn mewn egwyddor, y byddai manylion y materion perthnasol yn destun adroddiadau pellach i'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD cytuno ar y canlynol:

- a) Yr egwyddor o sefydlu Sefydliad Rheoli Cyrchfannau annibynnol fel y ffordd orau ymlaen ar gyfer darparu gwasanaethau twristiaeth ar draws Sir Benfro dros y pum mlynedd nesaf.
- b) Penodi swydd newydd Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr i arwain y Sefydliad Rheoli Cyrchfannau fel y ffordd ddelfrydol ymlaen yn hytrach na'r opsiynau eraill a amlygir yn Atodiad A i'r adroddiad.
- c) Cyfraniad arfaethedig yr Awdurdod mewn-da o amser staff i helpu i gynnal y Sefydliad newydd Rheoli Cyrchfannau dros y pum mlynedd gyntaf o weithredu.
- d) Cyfraniad arfaethedig yr Awdurdod o arian parod i helpu i gynnal y Sefydliad newydd Rheoli Cyrchfannau dros y pum mlynedd gyntaf o weithredu (gan gyfeirio'n benodol at y llythyr diweddar oddi wrth CSP dyddiedig y 10^{fed} o Ionawr 2020).
- e) Y nifer o Aelodau'r Awdurdod a enwebir ar Fwrdd Gweithredol y Sefydliad Rheoli Cyrchfannau fydd newydd ei sefydlu i fod yn gyfartal â'r nifer o Gyngor Sir Penfro.
- f) Dylai'r Awdurdod alinio ei weithgaredd marchnata yn y dyfodol i gefnogi hunaniaeth brand gyffredinol a chanllawiau'r Sefydliad Rheoli Cyrchfannau newydd (unwaith y bydd wedi'i sefydlu'n llawn).
- g) Bod aelodaeth o'r Bwrdd Cysgodol, cymeradwyo'r telerau a'r amodau ariannol penodol, trefniadau cymorth staff APCAP, unrhyw drosglwyddo posibl o adnoddau marchnata allweddol yn ogystal â phob gweithgaredd cysylltiedig arall, yn cael eu dirprwyo i Brif Weithredwr yr Awdurdod.
- h) Bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth clir yn cael ei greu yn nodi cymorth ffurfiol a pherthynas strategol yr Awdurdod â'r Sefydliad Rheoli Cyrchfannau newydd.

